**ATODIAD 2**

**Gweithgor Polisi Cynllunio – Cylch Gorchwyl Drafft**

**Prif Bwrpas**

Gweithgor sydd yn darparu cefnogaeth a mewnbwn i'r broses o baratoi a chynnal y Cynllun Datblygu Lleol

**Swyddogaethau**

1. Bydd y gweithgor yn darparu arweiniad a barn yn ôl y gofyn ar:

    - ddogfennau drafft a baratoir gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio yn y broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol cyn iddynt fynd ymlaen i drefniadau sydd yn arwain at geisio adborth cyhoeddus.

    - sylwadau gan y cyhoedd ac unrhyw grŵp/ fforwm budd-ddeiliaid yn ystod cyfnodau cyfranogiad cyhoeddus neu ymgynghoriad statudol cyhoeddus wrth baratoi y Cynllun , negeseuon sydd yn deillio ac ymatebion posib y Gwasanaeth Polisi Cynllunio

    - dogfennau drafft yn y broses paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol cyn iddynt fynd ymlaen i drefniadau sydd yn arwain at geisio adborth cyhoeddus.

    - sylwadau gan y cyhoedd ac unrhyw grŵp/ fforwm budd-ddeiliaid yn ystod cyfnodau cyfranogiad cyhoeddus neu ymgynghoriad statudol cyhoeddus wrth baratoi y Canllawiau , negeseuon sydd yn deillio ac ymatebion posib y Gwasanaeth Polisi Cynllunio

    - Yr Adroddiad Monitro Blynyddol y CDLl

    - Dogfennau sydd yn cael eu paratoi fel rhan o'r broses o adolygu'r CDLl.

**Mandad**

- Bod yn Weithgor mewnol o aelodau etholedig trawsbleidiol sydd yn cael ei gydnabod yn y Cytundeb Cyflawni ac yn cyfrannu a chefnogi y broses o greu a chynnal y Cynllun Datblygu Lleol
- Bod yn gorff sydd yn gweithredu ar sail gwybodaeth a thystiolaeth.
- Fforwm sydd yn hwyluso'r gwaith mewn amgylchedd gefnogol ac adeiladol

**Cyfansoddiad**

Bydd y Gweithgor yn cynnwys:

- Cyfanswm o 15 aelod etholedig wedi eu penodi ar sail balans gwleidyddol y Cyngor o bryd i'w gilydd gan gynnwys Aelod Cabinet Amgylchedd .

Bydd y Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd a Rheolwr Cynllunio (Polisi) neu eu dirprwyon yn y cyfarfodydd i gyflwyno adroddiadau a chynghori y Gweithgor.

Etholir Cadeirydd ac Is Gadeirydd o blith yr aelodau etholedig yn flynyddol.

**Cefnogaeth gan Swyddogion i'r Gweithgor**

Bydd swyddogion adrannau eraill yn mynychu yn ôl y galw mewn ymgynghoriad a'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio.

Bydd gan Swyddogion Statudol neu eu cynrychiolwyr hawl i fod yn bresennol yn y cyfarfodydd

**Cworwm**

4 Aelod Etholedig

**Amledd**

Bydd Gweithgor yn cyfarfod yn ôl yr angen er mwyn rhoi adborth a barn yn ystod y camau allweddol yn y broses o baratoi CDLl newydd, yr Adroddiad Monitro Blynyddol, y broses o baratoi Canllawiau Cynllunio Atodol neu adolygu'r CDLl. Er mwyn cynorthwyo'r Aelodau yn y grŵp, bydd dyddiadau'r cyfarfodydd hyn yn cael eu sefydlu gan roi cymaint o rybudd â phosib.

**Rhaglenni**

Rheolwr Polisi Cynllunio o'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio a fydd yn gyfrifol am gytuno ar y rhaglen mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cynorthwyol Adran yr Amgylchedd.

Heblaw mewn sefyllfa o frys bwriedir y bydd Aelodau'r Gweithgor yn derbyn yr holl bapurau pum niwrnod clir cyn cyfarfodydd.

**Mecanwaith Adrodd**

Bydd adborth a barn y Gweithgor yn cael eu bwydo i mewn i'r prosesau a'r gwaith sydd yn gysylltiedig a pharatoi a chynnal y Cynllun Datblygu Lleol.

Bydd adborth a barn y Gweithgor yn cael eu cynnwys yn yr adroddiadau sydd angen eu cyflwyno i'r Cabinet.

DRAFT